# Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Peris




DRAFT

## Crynodeb Drafft (Ionawr 2022)

# 1. Cyflwyniad

**1.1** Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

**1.2** Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.

**1.3** Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- Beth sy'n dda am yr ardal?
- Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
- Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

**1.4** Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynnau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.

**1.5** Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda **23** o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Peris.

**1.6** Mae trafodaethau cychwynnol hefyd wedi eu cynnal gyda phobl ifanc yr ardal drwy'r gwasanaeth ieuenctid. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau yn **atodiad 3.**

DRAFT

## 2. Beth sy’n dda am eich ardal?

Dyma’r pethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Peris yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Yr iaith / diwylliant Gymraeg | 12 |
| Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad | 9 |
| Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol | 8 |
| Darpariaeth addysg ac ysgolion da | 7 |
| Llwybrau cerdded a beicio a llwybr arfordir | 6 |
| Ardal ddiogel a saff | 6 |
| Treftadaeth a hanes yr ardal | 4 |
| Adnoddau iechyd – ysbyty, fferyllfa, meddygfa | 4 |
| Cyfleusterau hamdden e.e. Canolfan, Sinema, Llyfrgell | 4 |
| Gweithgareddau cymdeithasol e.e. clybiau chwaraeon, corau | 4 |
| Mwynderau a chyfleusterau fel siopau, caffis, bwytai | 3 |
| Gweithgareddau a chyfleoedd i bobl ifanc | 3 |
| Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gweithredol | 3 |
| Ardal glan a thaclus | 3 |
| Cynnyrch a busnesau lleol | 3 |
| Potensial ynni adnewyddadwy | 2 |
| Cyfleoedd a manteision denu twristiaeth / ymwelwyr | 1 |
| Gwirfoddolwyr | 1 |
| Aer glan / dim llygredd | 1 |
| Darpariaeth/cyflwr tai | 1 |
| Economi cryf / dim llawer o dlodi | 1 |
| Ardal efo traddodiad creadigol / celfyddydol | 1 |
| Rhandiroedd cymunedol Caban Cyf | 1 |
| Uwchraddio Neuadd Rhiwlas wedi gwneud gwahaniaeth mawr | 1 |

DRAFT

## 3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Peris yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Problemau yn ymwneud a pharcio | 13 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol | 12 |
| Sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal | 8 |
| Nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal | 8 |
| Problemau ac effaith gor-dwristiaeth | 6 |
| Pryderon am gyflwr ffyrdd a thraffig | 6 |
| Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc e.e. clwb ieuenctid | 6 |
| Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol | 5 |
| Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser | 5 |
| Pryderon am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal | 5 |
| Yr iaith / diwylliant yn colli tir | 4 |
| Materion yn ymwneud â darpariaeth addysg / lleoliad ysgolion | 4 |
| Angen denu pobl i fod yn rhan o Gynghorau Cymuned / Pwyllgorau | 3 |
| Economi leol – diffyg adnoddau a siopau yn cau | 3 |
| Dim man ymgynnull / hwb cymunedol | 3 |
| Diffyg llwybrau cerdded a beicio o safon / diogel | 3 |
| Cyflwr gwael tai | 3 |
| Diffyg darpariaeth a chyfleusterau pêl droed | 2 |
| Gormod o ddigwyddiadau mewn rhai rhannau o'r ardal e.e. rasys | 2 |
| Rhaniad o fewn yr ardal | 2 |
| Costau gweithgareddau yn yr ardal | 1 |
| Band eang / cysylltiad we wael | 1 |
| Tlodi yn yr ardal | 1 |
| Angen i Cyngor Gwynedd i roi cefnogaeth/hyfforddiant i Gyngor Cymuned | 1 |
| Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol | 1 |
| Ymddygiad gwrthgymdeithasol | 1 |
| Dim digon o dai newydd yn cael eu hadeiladu | 1 |
| Diffyg gweithgareddau i bobl hŷn | 1 |
| Busnesau lleol angen cefnogaeth | 1 |
| Problemau efo tudalen gwefan gymunedol | 1 |
| Diffyg cyfathrebu ynglŷn â'r Neuadd Goffa Llanrug | 1 |
| Angen gwell rheolaeth a Phwyllgor i Neuadd Gymunedol Waunfawr | 1 |
| Diffyg cydweithio rhwng mudiadau a Chynghorau Cymuned | 1 |
| Ffynhonnell egni gwyrdd ddim yn gynaliadwy | 1 |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Pentrefi e.e. Rhiwlas ddim yn elwa o prosiectau cyfagos e.e. Safle Treftadaeth, Ynni Ogwen | 1 |

## 4. Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Ardal Llŷn am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol | 11 |
| Cefnogi busnesau i sefydlu a ffynnu yn lleol | 9 |
| Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy glir yn ei le er mwyn cael gwell rheolaeth ar dwristiaeth ac uchafu potensial economaidd | 9 |
| Gwell rheolaeth parcio ar gyfer ymwelwyr a phobol leol | 8 |
| Gwella cyfleusterau ac adnoddau cymunedol lleol er mwyn dod a phobl at ei gilydd e.e. clybiau, ffair haf, dosbarthiadau | 8 |
| Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddadwy, di-blastig, pwyntiau gwefru | 8 |
| Cynnal a datblygu llwybrau cyhoeddus, llwybrau beicio a cherdded | 8 |
| Cymunedau yn cymryd rheolaeth o asedau ac yn fwy annibynnol er mwyn cyfarch anghenion lleol e.e. Ysgol Cwm y Glo | 7 |
| Gwella edrychiad yr ardal – strydoedd glan, mwy o finiau, blodau | 7 |
| Datblygu'r Cynghorau Cymuned a rhoi cefnogaeth / sgiliau addas i aelodau | 7 |
| Creu gwaith a swyddi gwerth uchel | 6 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus – hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol | 6 |
| Gwell cydweithio ar lefel lleol e.e. Rhwng mudiadau, mentrau, grwpiau a Chynghorau Cymuned | 5 |
| Darparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc | 5 |
| Deddfwriaeth er mwyn cael gwell reolaeth ar dai haf / ail gartrefi | 4 |
| Pobl ifanc i gymryd rhan fwy gweithredol yn eu cymuned | 4 |
| Mwy anogaeth i'r iaith / diwylliant er mwyn ffynnu a helpu dysgwyr | 4 |
| Cae pêl droed | 3 |
| Buddsoddi er mwyn gwella ffyrdd yr ardal | 3 |
| Taclo problemau llifogydd | 2 |
| Creu is-adeiladaeth band eang | 2 |
| Mwy o gefnogaeth i iechyd a llesiant meddyliol | 1 |
| Taclo problem cyffuriau ac alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol | 1 |
| Mwy o ofod gwag mewn mynwentydd | 1 |
| Canolfan Iechyd i blant ac oedolion | 1 |
| Darparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer pobl hŷn | 1 |
| Cyfleoedd i wella cymuned drwy gelfyddydau | 1 |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Gwaith diogelu a hyrwyddo henebion | 1 |
| Dim tlodi | 1 |
| Ymchwiliad nifer rhandiroedd | 1 |

## 5. Cwestiynau ychwanegol

### 5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu angen?

Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Bro Peris:

- Cyngor Gwynedd
- Ysgolion
- Grwpiau Cymunedol
- Tyddyn Teg
- Menter Fachwen
- Antur Waunfawr
- Grŵp Adfywio Llanberis
- Yr Heddlu
- Cynghorwyr Lleol
- Engie
- Ynni Padarn Peris
- Sefydliadau Celfyddydol
- Sefydliadau RSPB/ BTO
- Bwrdd Iechyd
- Clwb Ieuenctid
- Llywodraeth San Steffan
- Elusennau
- Cadwch Gymru'n Daclus
- Mudiad Ysgol Meithrin
- Cynghorau Cymuned / Tref
- Y Band
- Clybiau Pêl-droed
- Parc Cenedlaethol
- Llywodraeth Cymru
- Busnesau Lleol
- Amgueddfa Lechi
- Parc Padarn
- Rhwydweithiau Amgylcheddol
- Prosiect GwyrddNi
- Cyfoeth Naturiol
- Merched y Wawr
- Mudiadau gwirfoddol
- Neuadd Gymuned
- Busnesau mawr e.e. McDonalds
- Grŵp Cynefin
- Cynllun Heneiddio'n Dda (Age Cymru)
- Hunaniaith
- Men's Shed

### 5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

Ymgynghoriad Pwyllgor Neuadd Rhiwlas ar gynlluniau Uwchraddio'r Neuadd

### 5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi yn Bro Peris:

- Methodoleg cyd-gynhyrchu yn bwysig ar gyfer ymateb i newid hinsawdd.
- Wrth symud ymlaen i siarad yn ehangach hefo cymunedau yn y prosiect yma, yn dymuno cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb gan bod llawer ddim yn defnyddio technoleg ac bod angen sicrhau bod y sgyrsiau a'r wybodaeth yn hygyrch i bawb.
- Grwp Adfywio Llanberis wedi ei ffurfio yn gymharol ddiweddar gan Gyngor Gwynedd, grwp ac iddo amryw o is baneli yn edrych ar wahanol agweddau ar fywyd Llanberis.
- Sylwadau yn ymwneud â adeilad Mynydd Gwefru ac angen i'r Cyngor roi pwysau er mwyn sicrhau bod y safle yn mynd i ymateb i ddeuadau'r Cymunedau.